

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Belmont House
/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Belmont House yn 32 Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, LL28 4RB, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 30 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Belmont House yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd digon o gyfleusterau ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed
- Cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol
- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Belmont House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bae Colwyn. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, a rheolwr practis penodedig.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol NHS and private ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Belmont House yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r holiaduron gan gleifion tymor hir yn y practis (y rheiny a oedd wedi bod yn glaf gyda'r practis ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Nid oes gen i ond y ganmoliaeth uchaf dros y blynyddoedd. Rwyf wedi ymuno â sawl practis ledled Cymru. Y practis hwn yw'r gorau."

"Practis ardderchog – bob amser yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar. Proffesiynol iawn – bob amser yn siarad â chi ac yn eich trin fel oedolyn."

"Rwy'n gweld popeth maen nhw'n ei wneud o safon uchel iawn."

"Mae'r staff yn gwrtais ac yn gymwynasgar. Mae'r driniaeth wedi bod o safon broffesiynol iawn."

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym eu bod yn credu na ellid gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, awgrymodd rhai cleifion y canlynol:

"Teledu yn yr ardal aros er mwyn tawelu cleifion nerfus."

“Byddai apwyntiadau cynnar yn helpu o ran yr ôl-groniad, efallai trwy gynnig apwyntiadau cynharach, h.y. 8am i 8.30am.”

Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw o bosteri a dalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion 'dim ysmegu' yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn yr ardal aros / y dderbynfa.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Heb eithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r holl aelodau o staff yn ddymunol ac yn broffesiynol iawn ar bob adeg ac yn gyfeillgar iawn. Maen nhw wedi diwallu fy anghenion mewn argyfwng bob amser.”

“Rwyf bob amser yn cael fy nhrin â gofal a pharch.”

“Staff cyfeillgar a phroffesiynol iawn.”

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau i gleifion gynnal sgysiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth i gleifion

Dyweddodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddynt. Fodd bynnag, dywedodd mwy na thraean o'r cleifion hyn wrthym nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis yn cael ei harddangos o gwmpas y dderbynfa a'r man aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd adref gyda nhw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Mae rhai o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r cleifion.

Dyweddodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod bob amser yn gallu siarad â staff yn ei iaith o ddewis. Dywedodd un claf a oedd yn siarad Cymraeg wrthym mai dim ond weithiau yr oedd yn gallu siarad â staff yn ei iaith o ddewis.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dyweddodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa ac yn y manau aros, fe'i rhoddwyd yn neges y peiriant ateb, a chafodd ei gynnwys ar wefan y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad dau llawr, gydag un ystafell driniaeth ar y llawr daear a dwy ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at lefel llawr daear y practis trwy'r fynedfa ar yr ochr, a gallent gael mynediad at y dderbynfa, yr ardal aros ac un ystafell driniaeth ddeintyddol. Gwnaeth y practis ein hysbysu eu bod yn ystyried gosod ramp yn y brif fynedfa fel rhan o'u cynlluniau adnewyddu a gwella.

Gwrando a dysgu o adborth

Cadarnhaodd dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu wneud cwyn ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol pe bai angen.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno neu fynegi pryder yn cael ei harddangos yn glir yn y dderbynfa/mannau aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Cadarnhaodd dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedd y practis deintyddol yn gofyn am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarperir yno – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn weithredol a dywedodd y practis wrthym eu bod yn gwneud hyn trwy ddarparu holiaduron i gleifion. Dywedodd y practis wrthym y caiff unrhyw adborth ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y practis yn defnyddio templedi holiaduron AGIC. Hysbyswyd ni gan y practis fod cynlluniau ar waith i ddatblygu eu holiaduron i gleifion eu hunain, a fyddai ar gael i gleifion eu cwblhau yn yr ardaloedd aros. Gwnaethom hefyd gynghori y dylai'r practis

arddangos dadansoddiad o adborth gan gleifion i ddangos i gleifion eu bod yn casglu adborth ac yn ymateb iddo er mwyn cynyddu dysgu a gwella'r gwasanaeth. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Datblygu holiaduron newydd i geisio barn y cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn bodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn olau ac yn awyrog.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ystod taith o'r adeilad, gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân iawn ac yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw rwystrau amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd bron pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ar y llawr daear, ac roedd un toiled at ddefnydd staff ar yr ail lawr.

Gwnaethom nodi bod y practis yn cwblhau profion dyfeisiau cludadwy yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir wrth y dderbynfa.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir a'i fod yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

Gwnaethom nodi bod y practis yn defnyddio **biniau offer miniog â chaeadau oren** i gael gwared ar **anesthetig** a ddefnyddiwyd neu a ddefnyddiwyd yn rhannol. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid defnyddio biniau gyda chaeadau melyn ar gyfer taflu **anesthetig** lleol a ddefnyddiwyd yn rhannol. Yn dilyn ein harolygiad, cysylltodd y practis â'r contractwyr gwastraff ar unwaith er mwyn diwygio'r contract.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân ac wedi'i gyfarparu'n dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y cyfleuster ychydig yn anniben mewn rhai manau. Tynnwyd sylw'r practis at hyn a gwnaethant dacluso'r ardal ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Dangosodd staff y broses ddadheintio inni a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cwblhau archwiliadau o reoli heintiau yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cwblhau asesiadau risg rheolaidd mewn perthynas â'r bacteriw Legionella. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y daflen lle y cofnodir tymhereddau ar gyfer y manau dŵr poeth yn dangos darlleniadau tymheredd o oddeutu 40 gradd. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai tymheredd y dŵr poeth gyrraedd 55 gradd. Trefnodd y practis fod peiriannydd cymeradwy yn gwirio tymheredd y dŵr poeth ar unwaith a gwnaethom dderbyn cadarnhad fod hyn wedi cael ei gwblhau y diwrnod canlynol.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Gwnaethom hefyd nodi bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u cludo yn unol â pholisi dadheintio cyfredol y practis.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi dadebru ar waith, ac roedd gweithdrefnau clir yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwmpo) yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd yr holl staff clinigol yn gyfredol o ran eu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, hysbyswyd ni gan y practis fod angen i ddau aelod o staff ddiweddarau eu hyfforddiant. Sicrhawyd ni ar lafar y byddai trefniadau'n cael eu gwneud.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis yn meddu ar dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir.

Roeddem yn gallu gweld bod y practis wedi cwblhau archwiliadau perthnasol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cwblhau amrediad eang o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gweithredu rhaglen o archwiliadau trwy gydol y flwyddyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi defnyddio dull Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru. Mae hwn yn ddull hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cynnal cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod nodiadau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd y deintyddion yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu.

Fodd bynnag, canfuom nad oedd yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn cofnodi'r wybodaeth argymelledig yn gyson yng nghofnodion y cleifion. Byddai o fudd petai'r practis yn datblygu templed safonol ar gyfer y gwaith o gadw cofnodion cleifion, fel bod yr ansawdd yn gyson ar draws y practis. Rydym hefyd yn argymhell y dylid cwblhau archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.

Yr hyn y mae angen ei wella

Datblygu templed safonol ar gyfer yr holl waith o gadw cofnodion cleifion fel bod yr ansawdd yn gyson drwyddi draw, a chwblhau archwiliadau rheolaidd fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod y practis hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Am fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers cryn dipyn o amser, roedd cyfathrebu da rhyngddynt. Dywedasant wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd dystiolaeth o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu roedd y fersiynau wedi'u rheoli, ac roeddent yn cynnwys llofnodion staff yn dangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa'r adeilad. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Belmont House

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Belmont House

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Datblygu holiaduron newydd i geisio barn y cleifion.	6.3 Gwranddo a dysgu o adborth	Datblygu holiadur i gleifion er mwyn ei ddarparu bob hyn a hyn i geisio safbwyntiau ein cleifion.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gyflawni
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod staff yn diweddarau eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl	Cofrestrwyd a chwblhawyd cyrsiau diogelu gan aelodau perthnasol o staff ym mis Chwefror 2018.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gyflawni
Cyflwyno amrediad o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Adolygu archwiliadau cyfredol sy'n cael eu cwblhau yn rheolaidd, a chyflwyno archwiliadau lle y dylent gael eu cwblhau er mwyn gwella ein gwasanaethau yn barhaus. Cynnwys	Rheolwr y Practis	O fewn tri mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		archwiliadau cadw cofnodion yn ein cynllun archwilio.		
Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.	3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd	Gwnaed ymholiadau â Deoniaeth Cymru a bydd dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hunanwerthuso.	Rheolwr y Practis	O fewn tri mis
Datblygu templed safonol ar gyfer yr holl waith o gadw cofnodion cleifion fel bod yr ansawdd yn gyson drwyddi draw, a chwblhau archwiliadau rheolaidd fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd yr holl ddeintyddion yn cytuno ar fformat a chynnwys y templedi ac yna eu cadw ar feddalwedd rheoli cleifion newydd.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gyflawni
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ddim yn berthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Rose-Lyanne Jones

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 19 Mawrth 2018